


# Datblygu Chwaraeon

## PRENTISIAETH LEFEL 3, 4 NEU 5 MEWN DATBLYGU CHWARAEON

## Mae'r brentisiaeth yn addas i:

**Unigolion sydd yn gweithio, neu am weithio mewn rôl ble gofynnir iddynt ddatblygu chwaraeon o fewn y gymuned neu ardal leol. Lleoliad arferol byddai o fewn adran chwaraeon cyngor sir neu ddarparwr gweithgareddau chwaraeon.**

### Mae'r rhaglen 15 mis yn cynnwys:

**Lefel 3**
- NVQ Diploma mewn Datblygu Chwaraeon
- Tystysgrif Arweinwyr Chwaraeon

**Lefel 4/5**
- Tystysgrif Cenedlaethol Uwch mewn Chwaraeon

### Gwybodaeth i'w gofio:

Er mwyn dechrau prentisiaeth yng Nghymru, mae angen i chi fod:
- yn 16 oed neu'n hŷn (nid oes terfyn oedran uchaf)
- yn byw yng Nghymru
- ddim mewn addysg llawn amser
- ddim yn derbyn unrhyw gyllid arall gan Lywodraeth Cymru

Os ydych chi'n bwriadu ymgymryd â chymhwyster Prentisiaeth fel ffordd o uwchsgilio yn eich rôl bresennol, bydd angen i chi hefyd:
- fod yn gweithio am o leiaf 16 awr yr wythnos
- gael cefnogaeth eich cyflogwr i ymgymryd â'r cymhwyster
- gweithio mewn rôl sy'n berthnasol i'r cymhwyster
- cael eich cyflogi am o leiaf 51% o'ch oriau contract yng Nghymru

### Adran Prentisiaethau'r Urdd

Mae Adran Prentisiaethau'r Urdd yn ddarparwr hyfforddiant cydnabyddus, sydd wedi bod yn darparu prentisiaethau ers 2014. Mae'r Urdd yn arbenigo mewn darparu rhaglenni dwyieithog a Chymraeg, beth bynnag eich sgiliau iaith.

### Hwb Sgiliau Hanfodol

Mae pob rhaglen prentisiaeth yn cynnwys elfennau o sgiliau Hanfodol. Mae'r HWB yn arbenigo mewn helpu prentisiaid i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol. Yn dibynnol ar eich cymwysterau presennol, bydd angen cwblhau rhai cymwysterau sgiliau Hanfodol fel rhan o'ch rhaglen. Bydd ein tîm cyfeillgar ac arbenigol yn eich tywys chi pob cam o'r ffordd.

### Dulliau Asesu a beth i'w ddisgwyl:

Mae modd teilwra dulliau asesu y rhaglen er mwyn bod yn addas i bob unigolyn. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithdai wyneb yn wyneb, gweithdai ar lein, dysgu annibynnol, gwaith ysgrifenedig, trafodaethau proffesiynol ac arsylwadau.

Mae'r cymhwyster lefel 4 a 5 hefyd yn cynnwys aseiniadau ysgrifenedig.

### Gwybodaeth i gyflogwyr:

Mae prentisiaeth yn ffordd o recriwtio a meithrin talent newydd neu'n ffordd fforddiadwy o ddatblygu'ch gweithlu presennol. Ariannir yr Urdd er mwyn darparu prentisiaethau gan Lywodraeth Cymru, ac nid oes cost i'ch sefydliad tu hwnt i gostau cyflogi arferol.

Gall yr Urdd eich cynorthwyo wrth recriwtio, dewis rhaglen, sicrhau cydymffurfiaeth, a hybu dwyieithrwydd. Mae ein tîm arbenigol ar gael i'ch tywys o gychwyn y daith, hyd at ddathlu'r llwyddiannau wedi i'ch prentis gwblhau'r brentisiaeth.

**Cysylltu â ni:**
**I wneud ymholiad cychwynnol, cysylltwch â prentisiaeth@urdd.org**

Prentisiaethau